



 **Polisi**



Canolfan Gydweithredol Sefydliad
Iechyd y Byd ar Fuddsoddi
ar gyfer Iechyd a Llesiant



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Iechyd Cyhoeddus
Cymru
Public Health
Wales

Meithrin perthnasoedd cymdeithasol pobl hŷn yng Nghymru: heriau a chyfleoedd

.....

Mae hefin 2023

Awduron

Menna Thomas, Swyddog Polisi
Iechyd y Cyhoedd, Louisa Petchey,
Uwch Arbenigwr Polisi, Sara Elias,
Uwch Swyddog Polisi, Jo Peden,
Ymgynghorydd Iechyd y Cyhoedd.

Diolchiadau

Hoffwn ddiolch i Johanna Davies, Pennaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru a Heather Ferguson, Pennaeth Polisi a Prosiectau yn Age Cymru am rhoi adborth ar yr adroddiad a chyfrannu at ei ddatblygiad.



Pwrpas

Mewn cyfnod o heriau olynol sy'n gorgyffwrdd ac sy'n cynnwys iechyd, economeg a newidiadau amgylcheddol byd-eang, mae'r papur hwn yn archwilio'r heriau a'r cyfleoedd i feithrin perthnasoedd a rhwydweithiau cymdeithasol ymhliith pobl hŷn yng Nghymru, a all fod yn ffactor amdiffynnol ar gyfer iechyd.

Pwrpas y papur hwn yw:

- Darparu adolygiad cyflym o berthnasoedd a rhwydweithiau cymdeithasol pobl hŷn a sut mae pandemig COVID-19 a heriau costau byw mwy diweddar wedi effeithio arnynt, gan ddefnyddio tystiolaeth genedlaethol a rhyngwladol.
- Nodi polisiau ac arferion sy'n hyrwyddo, cynnal a chryfhau perthnasoedd a rhwydweithiau cymdeithasol pobl hŷn fel modd o oresgyn heriau ac adeiladu cyfalaf cymdeithasol cenedlaethau hŷn y presennol a'r dyfodol.

Mae'r data a gynhwysir yn y papur briffio hwn yn ymwneud â phobl 50 oed a hŷn ond mae'n amrywio yn ôl argaeledd.

ISBN: 978-1-83766-170-1

©2023 Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru

Pwyntiau allweddol

- Deellir bod 'cyfalaf cymdeithasol' yn disgrifio perthnasoedd a rhwydweithiau cymdeithasol, gan gynnwys y rheini â theulu, ffrindiau, cymdogion, a'r gymuned ehangach, a nodweddir gan ymddiriedaeth a dwyochedd.¹ **Mae'r cysylltiadau cymdeithasol a'r rhwydweithiau sydd gennym o fewn ein cymunedau yn hanfodol i'n hiechyd a'n llesiant.**²
- **Mae pobl hŷn yn gynyddol yn cyfrif am gyfran uwch o boblogaeth Cymru** ac yn fydd-eang. Dylid dathlu'r ffaith bod pobl yn byw'n hirach. Fodd bynnag, mae newidiadau i gyfansoddiad y boblogaeth yn dod â chyfleoedd a heriau cymdeithasol ac economaidd newydd.
- **Mae gan bobl hŷn gyfraniad pwysig i'w wneud, a rolau i'w chwarae, yn eu cymunedau, ac maent yn cael budd iechyd o wneud hynny.** Fodd bynnag, dangoswyd bod diffyg cysylltiad cymdeithasol yn effeithio'n negyddol ar iechyd a llesiant.
- **Mae gan bobl hŷn fwy o ymdeimlad o berthyn yn eu cymunedau.**³ Maent yn gwerthfawrogi gwerth cefnogaeth cilyddol rhwng teulu, ffrindiau a chymdogion ac yn ymddangos yn fwy parod i helpu a chefnogi eraill na chenedlaethau iau presennol.⁴
- **Roedd lefelau uwch o gyfalaf cymdeithasol yn nodwedd o ymateb y gymuned i'r pandemig COVID-19 diweddar,** megis gwirfoddoli a chymorth a chefnogaeth anffurfiol i deulu a chymdogion. Er bod llawer o bobl hŷn wedi ymateb i her y pandemig drwy ddarparu cymorth anffurfiol yn eu cymunedau, **roedd y rhai oedd yn gwarchod oherwydd afiechyd neu anableddau mewn perygl o fod yn ynysig ac yn unig.**⁵
- **Y cymunedau yng Nghymru a oedd yn gallu ymateb orau i her COVID-19 oedd y rhai â chyfalaf cymdeithasol oedd yn bodoli eisoes** e.e. sylfaen gref o wirfoddolwyr gyda gwybodaeth leol dda a sefydliadau lleol gweithgar. Roedd mynediad a sgiliau digidol hefyd yn bwysig, gydag oedran yn rhagfynegydd mwyaf o allgáu digidol.
- **Mae pobl hŷn yn cael eu tynnu rhwng awydd i ddychwelyd i weithgarwch cymdeithasol a phryderon am y goblygiadau o ran cost ac iechyd.** Mae pandemig COVID-19 wedi tanseilio hyder cymdeithasol llawer o bobl hŷn, yn enwedig y rhai sy'n sâl neu ag anableddau⁶ ac mae costau byw cynyddol yn gadael pobl hŷn ag incwm isel â llai o arian i'w wario ar deithio a gweithgareddau cymdeithasol.⁷
- **Mae rhwystrau i gyfalaf cymdeithasol yn creu anghydraddoldebau o ran pwy all gael budd.** I bobl hŷn, mae rhwystaru i worfoddoli yn cynnwys iechyd a gweithredu corfforol gwael, tlodi, stigma, diffyg sgiliau, trafnidiaeth wael, cyfyngiadau amser, rheolaeth annigonol o ran gwirfoddolwyr, a chyfrifoldebau gofalu eraill.⁸ **Y bobl hŷn a fyddai'n elwa fwyaf o gyfleoedd i ddatblygu eu cyfalaf cymdeithasol sy'n wynebu'r rhwystrau mwyaf.** Tra bod pandemig COVID-19 wedi lleddfu, mae hyn yn cael ei waethyg gan yr argyfwng costau byw presennol.
- **Hyd yn oed ar adegau o argyfyngau, mae'n hanfodol hwyluso ailgysylltu cymdeithasol a meithrin perthnasoedd er mwyn cynnal a gwella iechyd a llesiant i bawb.**

1. Rhagymadrodd

Mae'r cymunedau yr ydym yn byw, yn gweithio ac yn chwarae ynddynt yn benderfnyddion pwysig o'n hiechyd a'n llesiant corfforol a meddyliol, ac mae cyfalaf cymdeithasol yn ganolog i hyn. Deellir yn fras bod 'cyfalaf cymdeithasol' yn disgrifio perthnasoedd a rhwydweithiau cymdeithasol, gan gynnwys y rheini â theulu, ffrindiau, cymdogion, a'r gymuned ehangach, a nodweddir gan ymddiriedaeth a dwyochedd.⁹ Gall y rhain gynnwys bod yn rhan o sefydliadau a mudiadau fel grwpiau crefyddol, clybiau chwaraeon a grwpiau gweithredu cymunedol, yn ogystal â gweithgareddau fel gwirfoddoli a chyfranogiad dinesig, sy'n cynnwys pleidleisio ac ymwneud â chynghorau lleol a phleidiau gwleidyddol. Bydd y papur hwn yn canolbwytio ar archwilio un maes allweddol o gyfalaf cymdeithasol: perthnasoedd a rhwydweithiau cymdeithasol.

Mae perthnasoedd a rhwydweithiau cymdeithasol yn ffactor amddiffynnol gwerthfawr wrth gynnal llesiant seicolegol ac iechyd da trwy gydol bywyd person.¹⁰ Gall ffactorau sy'n tanseilio llesiant, fel byw ar eich pen eich hun neu mewn tlodi, gael eu lliniaru gan gyfalaf cymdeithasol cymdogaeth a chydlyniant, o wasanaethau lleol da i gael cymdogion sy'n gofalu am ei gilydd ac yn helpu gyda thasgau ymarferol.¹¹ Yn wir, waeth beth fo'u statws cymdeithasol, mae'r rhai sydd â rhwydweithiau cymdeithasol da sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau cymdeithasol yn teimlo'n well yn seicolegol ac mae ganddynt ymddygiadau iachach.¹² Mae'r rhai sy'n profi unigrwydd yn fwy tebygol o fod yn isel eu hysbryd, cael ansawdd cwsg gwael ac mewn mwy o berygl o gael clefyd y galon.¹³ Fodd bynnag, mae pobl sydd â pherthnasoedd cymdeithasol cryf tua un a hanner gwaith yn fwy tebygol o oroesi salwch sy'n bygwth bywyd na'r rhai â chysylltiadau cymdeithasol gwannach.¹⁴ Canfu ymchwil ddiweddar gan lechyd Cyhoeddus Cymru fod cyfalaf cymdeithasol a dynol yn ffactor arwyddocaol mewn gwahaniaethau mewn iechyd cyffredinol, llesiant meddwl, a boddhad bywyd hunan-gofnodedig.¹⁵

Roedd lefelau uwch o gyfalaf cymdeithasol, fel gwirfoddoli a chymorth a chefnogaeth anffurfiol i deulu a chymdogion, yn nodwedd o ymateb y gymuned i'r pandemig COVID-19 diweddar. Fodd bynnag, nid oedd pawb yn gallu cymryd rhan yn y cynnydd hwn nac elwa ohono. Y cymunedau yng Nghymru a oedd yn gallu ymateb orau i her COVID-19 oedd y rhai â chyfalaf cymdeithasol oedd yn bodoli eisoes, megis sylfaen gref o wirfoddolwyr gyda gwybodaeth leol dda a sefydliadau lleol gweithgar. Roedd y rhain wedyn yn gallu cydweithio â'r sector cyhoeddus, gyda chefnogaeth seilwaith digidol yn aml i hwyluso gwirfoddoli.^{16 17}

Mae cyfalaf cymdeithasol, felly, o bwysigrwydd canolog i lunwyr polisi a darparwyr gwasanaethau sy'n ceisio gwella iechyd a lleihau anghydraddoldeb iechyd trwy wella cysylltiad cymdeithasol a chyfranogiad mewn cymunedau ledled Cymru.

2. Rydym yn boblogaeth sy'n heneiddio

Mae pobl hŷn yn gynyddol yn cyfrif am gyfran uwch o'r boblogaeth yng Nghymru ac yn fydeang. Rhagwelir y bydd y boblogaeth 65 oed a throsodd yn y DU yn cynyddu bron i draean yn yr 20 mlynedd nesaf¹⁸, ac erbyn 2050 disgwylir y bydd yr oedran canolrifol yn y DU wedi codi i 44.5 o gymharu â 40.5 yn 2020.¹⁹ Disgwylir i gyfran y bobl hŷn gynyddu yng Nghymru fel y bydd 1 o bob 4 o bobl dros 65 oed erbyn 2038.²⁰ Ar yr un pryd, bydd tueddiadau o ostyngiad mewn ffrwythlonddeb yn fydeang ac yng Nghymru yn arwain at gyfansoddiad poblogaeth yn y dyfodol a fydd yn cynnwys cyfran uwch o bobl hŷn a phoblogaeth oedran gweithio sy'n lleihau.²¹

Dylid dathlu'r ffaith bod pobl yng Nghymru'n byw'n hirach, mae'n adlewyrchu gwelliannau mewn gofal iechyd, ac amgylcheddau byw, i enwi rhai enghreiffiau. Ond mae hefyd yn nodi newid yng ngwneuthuriad y boblogaeth, sy'n dod â chyfleoedd a heriau cymdeithasol ac economaidd newydd yn ei sgil. Yn gymdeithasol mae mwy o ofalwyr i wyrion ac wyresau ac aelodau eraill o'r teulu a charfan sy'n cynyddu o 'geidwaid diwylliant' sy'n rhannu cof a gwybodaeth am ein gorffennol.²² Yn economaidd mae'n golygu cynnydd yn nifer y defnyddwyr hŷn o nwyddau a gwasanaethau a chynnydd mewn gweithwyr addysgedig a phrofiadol. Mae hefyd yn cyflwyno heriau i gynaliadwyedd economaidd dulliau presennol y gronfa bensiwn a modelau presennol gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.²³ Mae cynnydd yn y boblogaeth dros 75 oed yn golygu cynnydd yn y gyfran sy'n byw gyda chyflyrau iechyd hirdymor a mwy o bwysau, oherwydd cyfaint a chymhlethdod y galwadau a wneir, ar y GIG.²⁴


Mae'n bwysig felly ystyried heddiw sut i gefnogi cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol o bobl hŷn i fyw mwy o flynyddoedd mewn iechyd da, gan alluogi a chefnogi pobl hŷn i chwarae rhan weithredol yng nghymunedau Cymru.



3. Cyfalaf cymdeithasol pobl hŷn ar waith

Mae'r adran hon o'r adroddiad yn archwilio'r galluogwyr a'r rhwystrau i feithrin perthnasoedd a rhwydweithiau cymdeithasol pobl hŷn, gyda ffocws ar effaith argyfyngau presennol fel Covid-19 ac argyfyngau costau byw.

Mae'r diagram isod yn dangos y galluogwyr a'r rhwystrau a nodwyd drwy'r adolygiad cyflym hwn.



3.1. Galluogwyr

Mae llawer o ffyrdd y mae pobl hŷn yn cyfrannu at ac yn elwa o berthnasoedd a rhwydweithiau cryf yn eu cymunedau, gyda chanlyniadau cadarnhaol i'w hiechyd a'u llesiant. Mae'r rhain yn cynnwys cyflogaeth, gofal di-dâl, gwirfoddoli a diwylliant.

3.1.1. Cyflogaeth

Mae llawer o bobl hŷn yn gweithio yn hwyrach yn eu bywydau. Cyn y pandemig roedd cyfraddau cyflogaeth ar gyfer y rhai rhwng 50 a 64 oed wedi bod yn cynyddu, gyda thraean o'r gweithlu dros 50 oed ym mis Mawrth 2020.²⁵ I rai gall hyn fod er mwyn iddynt allu parhau i fwynhau buddion bywyd gwaiith, i eraill bydd er mwyn helpu i greu dyfodol mwy sicr, tra i eraill gall fod allan o reidrwydd ariannol. Mae cysylltiad cymdeithasol a rhyngweithio hefyd yn agweddu pwysig ar waith ar gyfer pob oedran, yn enwedig ar gyfer gweithwyr hŷn, a gall gwaiith ystyrlon ddarparu ysgogiad corfforol, meddyliol ac emosiynol sydd o fudd i iechyd.²⁶ Gall profiad bywyd a gwybodaeth gweithwyr hŷn hefyd ddod â manteision i'r gweithle.²⁷

3.1.2. Gofal di-dâl

Mae llawer o bobl hŷn yn cymryd cyfrifoldeb am ofalu am berthnasau, yn aml ochr yn ochr â gweithio. Mae rhieni cu yn chwarae rhan arwyddocaol yng ngofal a datblygiad plant gyda "byddin rhieni cu" yn cynnig 8-11 awr yr wythnos o ofal plant ar gyfartaledd, yn ogystal â chyfrannu'n ariannol "tuag at ddillad, teganau a hobiau, gweithgareddau hamdden ac arian poced".²⁸ Yng Nghymru yn 2020, roedd dwy ran o bump o deuluoedd yn dibynnu ar gymorth gan rieni cu i ofalu am eu plant.²⁹ Mae hyn yn galluogi llawer o rieni i weithio ac yn cynnig cwmnïaeth sy'n pontio'r cenedlaethau i blant. Mae gofalu am wyrion ac wyrion yn creu cyfleoedd i bobl hŷn wneud cysylltiadau cymdeithasol ystyrlon, gan ddarparu ffynhonnell o emosiynau cadarnhaol, yn ogystal â chynyddu mynediad i gylchoedd cymdeithasol anhygrych fel arall.³⁰

Mae perthnasoedd cadarnhaol gyda rhieni a rhieni cu, yn enwedig mamau a neiniau, yn cefnogi trosglwyddo cyfranogiad dinesig rhwng cenedlaethau.³¹ Gall rhieni cu hefyd gefnogi trosglwyddo iaith, mamiaith neu ail iaith, i'w hwyrion.³²

Yn ogystal â gofal plant, mae pobl hŷn hefyd yn darparu gofal i'w perthnasoau: yng Nghymru, yr oedran brig ar gyfer darparu gofal di-dâl iaelodau hŷn, bregus neu sâl o'r teulu rhwng 2016 a 2020 oedd rhwng 45 a 64.³³ Yn 2019 amcangyfrifwyd bod 400,000 o ofalwyr di-dâl yng Nghymru a'r disgwyl yw y bydd hyn yn codi i dros hanner miliwn erbyn 2037.³⁴ Mae gofalu am eraill yn gwella llesiant rhai pobl tra'n lleihau llesiant pobl eraill.³⁵ Mae gan Gymru'r gyfran uchaf o ofalwyr hŷn a gofalwyr sy'n darparu mwy na 50 awr yr wythnos o ofal di-dâl.³⁶ Pan fydd gofynion gofal yn dechrau cael effaith negyddol ar ansawdd bywyd a llesiant y gofalwr yna bydd angen cymorth ychwanegol. O dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 mae gan ofalwyr di-dâl hawl gyfreithiol i asesiad angen gofalwr, ni waeth beth fo'u modd ariannol, neu faint o ofal y maent yn ei ddarparu neu'r math o ofal y maent yn ei ddarparu, i ganfod pa gymorth y gall fod ei angen fel nad yw darparu gofal i eraill yn cael effaith negyddol ar lesiant y gofalwr.³⁷

3.1.3. Gwirfoddoli yn y gymuned

Gall gwirfoddoli wella iechyd corfforol a meddyliol, creu cyfleoedd i ddefnyddio a datblygu sgiliau newydd a hybu cynhwysiant cymdeithasol.^{38 39} Mae gwirfoddolwyr hefyd yn cyfrannu at ddatblygiad achosion cymdeithasol ac amgylcheddol a chefnogaeth mewn polisiau cymdeithasol megis gofal hirdymor.⁴⁰ Oedran cyfartalog y rhai sy'n gwirfoddoli drwy Wasanaeth Gwirfoddoli Brenhinol y DU (y WRVS gynt) yw 66, y mae llawer ohonynt yn gweithio gyda phobl hŷn, yn darparu gwasanaethau cyfeillio ac yn eu cefnogi i fyw mor annibynnol â phosibl yn eu cymunedau.⁴¹ Yn 2019-20, gwirfoddolodd bron i draean (30%) o bobl 65 i 74 oed yng Nghymru o gymharu â 27% o bobl 16-24 oed.⁴² Mae pobl hŷn, yn enwedig y rhai sydd wedi ymddeol, yn gyffredinol hefyd yn fwy tebygol o ymwneud â chyfranogiad dinesig, megis gweithio ar gynghorau lleol.^{43 44}

Canfuwyd bod y cenedlaethau presennol o bobl hŷn yn rhoi gwerth mawr ar fod yn rhan o gymunedau lle mae pobl yn gofalu am ei gilydd.⁴⁵ Maent yn gwerthfawrogi gwerth cymorth ar y cyd rhwng teulu, ffrindiau a chymdogion ac maent yn fwy parod i helpu a chefnogi eraill na chenedlaethau iau.⁴⁶

3.2. Rhwystrau

Mae tystiolaeth hefyd yn awgrymu bod rhwystrau i feithrin perthnasoedd a rhwydweithiau cymdeithasol. Tra bod y rhan fwyaf o bobl hŷn yn byw heb bryderon ariannol neu gorfforol ac yn byw bywydau llawn a gweithgar, mae eraill yn profi anghysur corfforol, tlodi a/ neu broblemau iechyd meddwl. I bobl yn y sefyllfaedd hyn, a fyddai'n elwa fwyaf o gael cyfleoedd i dyfu a datblygu eu perthnasoedd a'u rhwydweithiau cymdeithasol, mae'r rhwystrau hyn yn cynnwys cael incwm isel, allgáu digidol, mynediad at gyfleoedd gwirfoddoli, ac unigrwydd ac unigedd. I'r rhai sy'n byw mewn ardaloedd trefol mae mynediad cyfyngedig, neu ddim mynediad i fannau gwyrdd o ansawdd da, y gwyddys ei fod yn cynyddu cyfleoedd ar gyfer cyswllt cymdeithasol, cynyddu gweithgarwch corfforol a darparu cefnogaeth ar gyfer heriau iechyd megis gordewdra a phroblemau iechyd seicolegol, hefyd yn rhwystr.⁴⁷ Mae'r ffactorau hyn yn creu anghydraddoldeb o ran pwy all elwa ar yr enillion iechyd a llesiant a ddaw o gyfalaf cymdeithasol.

3.2.1. Incwm isel

Nid oes gan y rhai ag incwm is o reidrwydd lai o berthnasoedd.⁴⁸ Fodd bynnag, mae tystiolaeth yn dangos bod graddiant cyfalaf cymdeithasol sy'n cyd-fynd ag incwm ac amddfadedd.⁴⁹ Mae incwm isel yn rhwystr i gael mynediad at adnoddau cymdeithasol a all fod o fudd i iechyd a llesiant, megis dosbarthiadau ymarfer corff a champfeydd, clybiau cymdeithasol, gweithgareddau hamdden a diwylliannol, gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn ogystal â chostau teithio. Mae incwm isel hefyd yn gysylltiedig â diffyg sgiliau digidol a mynediad at dechnoleg yn y cartref; sy'n aml yn rhagofyniad o ran dod o hyd i wybodaeth ac ymuno â gweithgareddau cymunedol, grwpiau cymdeithasol ac, yn fwy felly ers y pandemig, gwasanaethau cyhoeddus (gweler hefyd yr adran nesaf).⁵⁰ Gall costau ychwanegol yr eir iddynt gan bobl anabl a gofalwyr, sy'n aml yn hŷn, gyfyngu ar gyfleoedd i gyfranogi yn y gymuned hefyd.⁵¹

Mae gan Gymru lefelau uwch o dlodi na rhannau eraill o'r DU,⁵² gan gynyddu'r siawns o fod yn dlawd yn ddiweddarach mewn bywyd. Mae data Cymru yn dangos bod tlodi yn ffactor risg ar gyfer unigrwydd gyda bron i 4 o bob 10 (37%) o bobl mewn amddfadedd materol yn adrodd eu bod yn unig o gymharu ag ychydig dros 1 o bob 10 nad oeddent yn ddifreintiedig yn faterol.⁵³ Iechyd yw'r prif reswm pam fod pobl rhwng 50 a 64 oed yn ddi-waith, gyda'r rhai sydd â'r lleiaf o asedau yn fwyaf tebygol o roi'r gorau iddi am resymau eu hiechyd eu hunain neu i ofalu am eraill.⁵⁴

Mae tlodi pensiynwyr wedi bod yn codi ar draws y DU ers 2013/14 o 1.6 miliwn (14%) i 2.1 miliwn (18%) yn 2020/21 gyda'r rhai sy'n byw yn y sector rhentu preifat neu gymdeithasol yn wynebu risg uwch. Mae ffactorau sy'n cynnwys cyni a'r argyfwng costau byw yn effeithio ar allu pobl ganol oed i gronni cynillion pensiwn, gan beryglu tlodi ymhliith pobl hŷn.⁵⁵ Mae menywod yn fwy tebygol na dynion o brofi tlodi pensiynwyr.⁵⁶ Gan fod menywod yn tuedd i fyw'n hirach, mae hynny'n golygu mwy o flynyddoedd yn byw mewn tlodi. Yng Nghymru, amcangyfrifir bod 84,000 o'r rheini sy'n 65 oed neu'n hŷn yn byw mewn tlodi.⁵⁷ At hynny, roedd pobl hŷn a oedd yn hawlio pensiynau yn fwy tebygol o fod yn byw mewn amddfadedd os oedd rhywun ag anabledd yn eu cartref, neu o fod yn byw mewn cartref incwm isel os ydynt yn dod o leiafrif ethnig.⁵⁸

3.2.2. Oediaeth

Mae oediaeth yn effeithio ar bobl ar draws cwrs bywyd, ond mae'n gallu cyfyngu ein bywydau wrth ein bod ni'n heneiddio a gall rhwystro pobl rhag cymeryd rhan yng nghymdeithas a sefydliadau.⁵⁹

Ynghylch arferion cyflogaeth, mae pobl hŷn yn llai tebygol o gael cynnig swyddi, yn llai tebygol o gael cynnig hyfforddiant yn y gweithle ac yn fwy tebygol o ddioddef stereoteipiau am eu gallu i wneud y gwaith.⁶⁰ Mae stereoteipiau am bobl hŷn yn rhedeg yn ddwfn yn ein diwylliant. Yn ogystal a oediaeth sefydliadol a rhyngbersonol, mae pobl hŷn yn gallu mewnoli negeseuon oediaethol, sy'n gallu cyfyngu'r gweithgareddau a'r cyfleoedd cymdeithasol maent yn teimlo a ganiateir iddynt, sy'n risg i'w rhwydweithiau cymdeithasol.⁶¹

3.2.3. Allgáu digidol

Cynyddodd nifer y bobl rhwng 65 a 74 oed sy'n defnyddio'r rhyngrwyd o ychydig dros hanner (52%) yn 2011 i fwy nag 8 o bob 10 (83%) yn 2019.⁶² Oed, fodd bynnag, yw'r rhagfynegydd mwyaf o allgáu digidol ac mae ar ei fwyaf ar y ffin rhwng oedran hŷn, lefel isel o addysg ac incwm isel.⁶³ O'r rhai sy'n parhau all-lein, nid oedd gan bron i dri chwarter (71%) ddim mwy nag addysg uwchradd ac roedd bron i hanner (47%) o gartrefi incwm isel. Roedd gweithwyr lled-grefftus a gweithwyr llaw yn fwy tebygol o ddweud nad yw eu sgiliau digidol yn ddigon da ac roedd llai na chwarter (23%) o'r gweithlu wedi derbyn hyfforddiant sgiliau digidol gan eu cyflogwr.⁶⁴ Mae hyn yn awgrymu y bydd cenedlaethau hŷn y dyfodol ar incwm is yn parhau i fod mewn perygl o allgáu digidol.

Mae angen mynediad digidol ar lawer ond maent dan anfantais oherwydd diffyg dewisiadau eraill.⁶⁵ Mae rhai pobl hŷn yn teimlo ofn gwirioneddol, dwfn a diffyg hyder wrth ddefnyddio'r rhyngrwyd, felly mae dull gweithredu sy'n seiliedig ar hawliau'n gofyn bod amrywiaeth o ffyrdd o gael mynediad at wasanaethau a'u defnyddio ar gael.⁶⁶ Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i'r dull hwn sy'n canolbwytio ar yr unigolyn yn Strategaeth Ddigidol Cymru (Gweler hefyd 5.4).⁶⁷



Mae pobl hŷn yn fwy tebygol o fod â rhwydweithiau cymdeithasol llai neu o fyw ar eu pen eu hunain. Mae'r rhai sydd ar-lein yn defnyddio'r rhyngrwyd yn fwy ers y pandemig wrth i fwy o wasanaethau fynd ar-lein, ac efallai eu bod nhw'n defnyddio'r rhyngrwyd i estyn allan at bobl os ydyn nhw'n teimlo'n unig. Fodd bynnag, mae cael llai o bobl i ofyn am gymorth neu wirio pethau â hwy yn bersonol yn cynyddu eu hamlygiad i seiberdro seddu.⁶⁸



3.2.4. Mynediad at wirfoddoli

Gall gwirfoddoli roi cyfleoedd i'r rhai sy'n profi allgáu cymdeithasol, gan gynnwys rhoi hwb i'w hadnoddau personol, cymdeithasol a diwylliannol a gwella eu cyflogadwyedd.⁶⁹ Mae gwirfoddoli hefyd yn helpu i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau cymdeithasol ac iechyd, ar gyfer gwirfoddolwyr o grwpiau llai breintiedig ac ar gyfer y rhai sy'n gwirfoddoli.⁷⁰ Fodd bynnag, fel llawer o weithgareddau eraill, mae ganddo gostau adnoddau ac felly gall pobl o ardaloedd mwy difreintiedig fod yn llai tebygol o wirfoddoli.⁷¹ I bobl hŷn, mae rhwystrau posibl i wirfoddoli yn cynnwys iechyd a gweithredu corfforol gwael, tlodi, stigma, diffyg sgiliau, trafnidiaeth wael, cyfyngiadau amser, rheolaeth annigonol o ran gwirfoddolwyr, a chyfrifoldebau gofalu eraill.⁷²

3.2.5. Unigrwydd ac unigedd

Mae mwy na 4.3 miliwn o bobl rhwng 45 a 74 oed yn y DU yn byw ar eu pen eu hunain.⁷³ Dengys data arolwg Cymru fod pobl iau, yn gyffredinol, yn fwy tebygol o brofi teimladau o unigrwydd.⁷⁴ Fodd bynnag, nododd ymchwiliad pwylgor y Senedd, er y gallai pobl iau fod yn fwy tebygol o'i fynegi, "mae pobl hŷn yn profi ystod eang o ffactorau risg ar gyfer unigrwydd ac unigedd."⁷⁵ Gall ffactorau sy'n ymwneud â newidiadau cymdeithasol, corfforol ac iechyd a heriau a ddaw yn sgil heneiddio hefyd gynyddu'r risg y bydd pobl hŷn yn cael eu hynysu, yn unig ac wedi'u datgysylltu oddi wrth rwydweithiau cymdeithasol.⁷⁶ Canfuwyd bod oedolion hŷn sy'n byw mewn tai awdurdod lleol â lefelau addysg is mewn mwy o berygl o unigrwydd wrth iddynt heneiddio.⁷⁷ Mae'r ffactorau risg ar gyfer profi unigrwydd ac unigedd wrth i rywun heneiddio yn cynnwys angen gofal neu ddod yn ofalwr, profi profedigaeth, gorffen gwaith neu roi'r gorau i yrru, a datblygu anableddau henaint, megis nam ar y synhwyrau.⁷⁸

3.2.6. Gofal di-dal

Mae rhan fwyaf o bobl yn gyfrifol am ofalu am rhywun arall ar ryw adeg yn eu bywyd. Gall fod yn ofal am blant, wyrion, perthnasau neu ffrindiau hŷn neu sal. Yn 2021 roedd dros hanner o ofalwyr di-dal yng Nghymru a Lloegr dros 50 oed a mi oedd y rhan fwyaf ohonynt yn fenywod.⁷⁹

Mae gofalu am bobl yn gallu gwneud hi'n anodd i gynnal rhwydweithiau cymdeithasol, os nad oes rhywun i gymeryd drosto. Wnaeth Age UK adrodd fod bron trydydd o ofalwyr di-dal 65 a throsodd yn teimlo'n unig ac yn ynysig.⁸⁰ Mae'r amser mae'n cymeryd i gynnig gofal di-dal yn lleihau'r amser ar gael i enill cyflog a cymdeithasu.⁸¹ Mae gofalwyr sy'n cynnig mwy na 20 awr o ofal yr wythnos yn fwy tebygol o ddod o aelwydydd incwm isel, felly bydd amser a arian yn fwy tebygol o amharu ar eu cyfleoedd i gymdeithasu.⁸²

Materion all effeithio'n negyddol ar rhwydweithiau cymdeithasol a lles neiniau a teidiau sy'n gofalu am eu wyrion yw cynnwys gofynion y gofal, adnoddau sydd ar gael iddynt ac os ydynt yn cydbwys o gofalu gyda ymrwymiadau gwaith.⁸³

3.2.7. Cymunedau â diffyg mannau trefol gwyrdd

I'r rhai sy'n byw mewn trefi a dinasoedd, dangoswyd bod cael canolfannau dinesig gyda mannau gwyrdd, diogel a hygyrch yn sail i gydlyniant cymdeithasol cryfach.⁸⁴ Mae cael mwy o goed a mannau gwyrdd fel parciau a gerddi mewn mannau trefol yn denu pobl allan i gerdded, beicio a chymryd rhan mewn hamdden a gweithgareddau awyr agored. Mae hyn yn dod â phobl at ei gilydd ac yn cefnogi cydlyniant cymdeithasol yn ogystal â darparu cefnogaeth ar gyfer iechyd corfforol a meddyliol.⁸⁵ Mae mannau gwyrdd trefol a gweithgarwch corfforol yn gysylltiedig yn negyddol â straen.⁸⁶ Dangoswyd bod mynediad i fannau gwyrdd trefol o fwy o fudd i iechyd meddwl a llesiant pobl o grwpiau economaidd-gymdeithasol isel na grwpiau mwy breintiedig.⁸⁷ Wrth i ni heneiddio, rydym yn wynebu heriau iechyd cynyddol, ac mae deall y cydadwaith rhwng mannau gwyrdd a chydlyniant cymdeithasol, i lywio ymyrraeth strategol i fynd i'r afael â heriau iechyd, yn debygol o fod o fudd i genedlaethau hŷn.⁸⁸

4. Effaith heriau olynol i berthnasoedd a rhwydweithiau pobl hŷn

4.1. COVID-19 a mesurau cysylltiedig

Mae bod yn hŷn, byw mewn cymunedau difreintiedig a bod â chyflyrau iechyd sy'n bodoli eisoes i gyd yn ffactorau sy'n cynyddu'r risg y bydd pobl yn mynd yn ddifrifol wael neu'n marw oherwydd COVID-19.⁸⁹ Rhwng Mawrth 2020 a Mehefin 2021, roedd 9 o bob 10 marwolaeth o COVID-19 yng Nghymru yn bobl 65 oed neu hŷn.⁹⁰ Mae amharodwydd i geisio cymorth meddygol oherwydd ofn haint COVID-19 ac amhariad ar ddarpariaeth gwasanaethau gofal iechyd hefyd wedi arwain at ôl-groniad o anghenion iechyd heb eu diwallu ymhlið pobl hŷn yn arbennig.⁹¹ Er bod COVID-19 yn cyflwyno risg iechyd uniongyrchol i'r boblogaeth hŷn yng Nghymru, mae hefyd yn cael effeithiau anuniongyrchol ar iechyd oherwydd sut mae'n effeithio ar gyfalaf cymdeithasol.



Roedd y mesurau i atal y pandemig COVID-19 yn canolbwntio'n bennaf ar gyfyngu'n ddifrifol ar bob math o gyswllt cymdeithasol. Roedd cyfyngiadau hyd yn oed yn fwy ar gyfer y rhai â risg uwch o salwch difrifol o COVID-19, fel pobl hŷn, yr anogodd Llywodraeth Cymru hwy i 'warchod' rhwng mis Mawrth a mis Awst 2020 ac o Rhagfyr 2020 at ddechrau Ebrill 2021 drwy aros gartref. Roedd dros 70% o'r bobl a oedd yn byw ar eu pen eu hunain ac a anogwyd i 'warchod' yn 60 oed neu'n hŷn.⁹² Wrth i'r pandemig fynd rhagddo roedd y syniad o 'swigod cymorth' ar gyfer y rhai oedd yn 'gwarchod', yn ynysu neu'n byw ar eu pen eu hunain yn darparu cymorth a rhyngweithio cymdeithasol yr oedd dirfawr eu hangen. Fodd bynnag, i rai pobl hŷn achosodd y pandemig iddynt brofi unigrwydd am y tro cyntaf, yn ogystal â gwaethygu unigrwydd i'r rhai a oedd yn ei brofi o'r blaen.⁹³

Yn ystod y pandemig, bu cynnydd yn y bobl sy'n cyfathrebu'n ddigidol. Er bod hyn yn darparu cyfleoedd cymdeithasu yr oedd dirfawr eu hangen i rai, daeth y rhai â chysylltiadau cymdeithasol cyfyngedig a'r rhai nad oeddent yn gallu cael mynediad at wasanaethau a chymorth ar-lein yn fwy ynysig a pharhau i gael trafferth.⁹⁴ Cyn y pandemig roedd 32% o'r rhai nad oeddent erioed wedi defnyddio'r rhyngrwyd, neu heb ei ddefnyddio'n ddiweddar, yn y DU yn 50-69 oed a 67% dros 70 oed, a gwaethygodd y pandemig y sefyllfa hon.⁹⁵ Darparodd Llywodraeth Cymru 1000 o ddyfeisiau i gartrefi gofal i hwyluso apwyntiadau rhithwir y GIG a helpu teuluoedd i gadw mewn cysylltiad.⁹⁶

Roedd cyfyngiadau cymdeithasol yn golygu bod llawer o rieni cu wedi lleihau neu roi'r gorau i gysylltiad â'u hwyrion, ac roedd hyn yn effeithio'n negyddol ar eu llesiant a'u hiechyd meddwl.⁹⁷ Amlygwyd y rolau gwerthfawr y mae rhieni cu yn eu chwarae mewn bywyd teuluol, gan ddarparu cwmnïaeth ac arweiniad i blant, a gofal plant, gan alluogi rhieni i weithio, gan eu habsenoldeb.⁹⁸

Fe wnaeth mesurau i atal lledaeniad y feirws atal gwirfoddoli wyneb yn wyneb a dod â gweithgareddau wyneb yn wyneb mewn hybiau cymunedol fel mannau addoli a lleoliadau adloniant i ben dros dro. Fodd bynnag, roedd cefnogaeth anffurfiol pobl hŷn i ffrindiau a chymdogion yn fwy arwyddocaol.⁹⁹ Ym mis Mawrth 2021, dywedodd mwy na thraean (37%) o bobl rhwng 50 a 64 oed yn y DU eu bod wedi rhoi cymorth ymarferol i deulu, ffrindiau neu gymdogion.¹⁰⁰ Rhwng Mai ac Awst 2020, dywedodd dwy ran o dair (66%) o bobl rhwng 65 a 74 oed eu bod wedi cysylltu â'u cymdogion a allai fod angen cymorth, o gymharu â 41% o'r rhai rhwng 16 a 24 oed.¹⁰¹ Roedd pobl hŷn sy'n byw mewn cymdogaethau â chymuned fwy sefydlog, lle'r oedd rhwydweithiau cymdeithasol eisoes wedi'u hen sefydlu yn gallu addasu'r cyfalafl cymdeithasol hwn a chefnogi ei gilydd yn fwy effeithiol na'r rhai â throsiant uchel o drigolion.¹⁰²

Roedd pobl hŷn, 50-64 oed, ychydig yn fwy tebygol na phobl ganol oed o fod ar ffyrlo yn 2020, ac roedd pobl hŷn hefyd yn fwy tebygol o fod yn ddi-waith yn y tymor hir o gymharu â grwpiau oedran iau.¹⁰³ Ar ben hynny, roedd traean o'r gweithwyr a gafodd eu diswyddo yn ystod y pandemig dros 50 oed ac rodden nhw hanner mor debygol o gael eu hailgyflogi, gyda'r rhai lleiaf cefnog yn fwy tebygol o ddisgyn yn ddi-waith.¹⁰⁴ Mae effaith y pandemig wedi bod yn fwy i bobl hŷn o ran cyflogaeth yn y DU. Mae cyfraddau anweithgarwch economaidd wedi bod yn gostwng ar gyfer pobl 50 – 64 oed ers 1986, fodd bynnag, ers 2020 mae hyn wedi'i wrthdroi a bu cynnydd am dair blynedd yn olynol.¹⁰⁵ Mae hyn yn effeithio'n uniongyrchol ar gyfalafl cymdeithasol, drwy atal pobl hŷn rhag cymryd rhan yn gymdeithasol yn y gwaith, ac yn anuniongyrchol, drwy effeithio'n negyddol ar eu sicrwydd ariannol, a all fod yn rhwystr i weithgareddau sy'n cynyddu cyfalafl cymdeithasol.

4.2. Yr argyfwng costau byw

Mae gan raddfa effaith argyfwng costau byw ar iechyd y cyhoedd y potensial i fod yr un fath â'r pandemig COVID-19 a bydd yn taro'r rhai sydd ar incwm is, y rhai mewn gwaith a'r rhai sydd wedi ymddeol, galetaf. bobl hŷn sydd â'r risg uchaf yw'r rhai ar incwm isel neu ansicr a'r rhai sy'n byw mewn ardaloedd difreintiedig. Mae menywod, lleiafrifoedd ethnig a phobl anabl mewn mwy o berygl a gall bod mewn mwy nag un o'r grwpiau hyn waethyguris.¹⁰⁷

Ym mis Tachwedd 2022 dangosodd data'r Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS) fod 50% o bobl 50-69 oed a 47% o bobl dros 70 oed na fyddent yn gallu arbed arian yn y deuddeg mis nesaf o gymharu â 35% ar gyfer y ddua grŵp oedran ym mis Tachwedd 2021.¹⁰⁸ Yn fwy diweddar cododd Cymdeithas Geriatrig Prydain bryderon am yr effaith yr oedd costau byw yn ei chael ar iechyd eu cleifion oherwydd eu bod yn methu â fforddio deiet iach, yn byw mewn cartrefi oer ac yn methu â fforddio cludiant i apwyntiadau meddygol.¹⁰⁹

Mae bod ar incwm isel yn golygu bod cyfran uwch o incwm yn cael ei wario ar bethau sylfaenol, gan gynnwys gwres a bwyd.¹¹⁰ Roedd tlodi ymhliith y rhai sydd wedi ymddeol eisoes



yn codi cyn y pandemig.¹¹¹ Gyda'r argyfwng costau byw bellach yn gwthio costau hanfodion i fyny, mae mwy o bobl hŷn yn debygol o ganfod eu hunain yn llai abl i wario arian ar y pethau a allai fod wedi gwella eu perthnasoedd a'u rhwydweithiau cymdeithasol yn flaenorol, megis teithio, ymweld â ffrindiau, gweithgareddau cymdeithasol neu wyrion. Yn ystod haf 2022, adroddwyd yn eang bod llawer o bobl hŷn oedd wedi ymddeol yn dychwelyd i'r gweithlu gan nad oedd eu hincwm ymddeoliad yn ddigon i dalu eu costau.^{112 113}

Er mwyn cefnogi cartrefi gyda chostau byw cynyddol, mae Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yn darparu cymorth ariannol ychwanegol i'r rhai ar incwm isel, sy'n cynnwys cyfran fawr o'r boblogaeth hŷn.

Gallai lleihau caledi ariannol i bobl hŷn eu galluogi i wario mwy ar weithgareddau sy'n gwella eu perthnasoedd a'u rhwydweithiau cymdeithasol, tra gallai trafnidiaeth gyhoeddus well-wella eu gallu i gael mynediad i'w cymunedau a gwasanaethau lleol.


Er bod data'n dangos, wrth i gymdeithas ddod allan o'r pandemig, y gallai oedolion hŷn fod wedi cael canlyniadau iechyd meddlwl gwell na'r disgwyl, mae'n anochel y bydd pwysau o'r argyfwng costau byw yn effeithio ar lefelau unigedd ac unigrwydd ac iechyd meddlwl a llesiant i lawer. Canfu arolwg gan Age Cymru a adroddwyd ym mis Mehefin 2022 fod ymatebwyr yn adrodd am densiwn rhwng awydd i ddychwelyd i weithgarwch cymdeithasol a phryderu am y goblygiadau o ran cost ac iechyd.¹¹⁴ Roedd llawer wedi colli'r hyder i ddychwelyd yn llawn i'w lefelau blaenorol o weithgarwch cymdeithasol, gyda bron i 4 o bob 10 (38%) yn dweud nad oeddent yn teimlo'n hyderus i fynd allan yn eu cymuned leol. Soniodd rhai ymatebwyr am heriau o ran adenill bywyd cymdeithasol ac ofn unigrwydd.¹¹⁵

Mae'r pandemig COVID-19 a'r argyfwng costau byw wedi cael, ac yn parhau i gael, effeithiau eang ar gyfalaf cymdeithasol pobl hŷn. Mae ein profiad o COVID-19 wedi pwysleisio bod perthnasoedd a rhwydweithiau cymdeithasol yn gonglfaen hanfodol ar gyfer iechyd a llesiant da. Yn wir, mae dadansoddiad diweddar gan iechyd Cyhoeddus Cymru yn canfod bod 'cyfalaf cymdeithasol a dynol' yn esbonio rhan sylweddol o'r bwlch rhwng y canlyniadau iechyd gorau a gwaethaf yng Nghymru - ar yr un lefel â sicrwydd incwm. Felly, hyd yn oed ar adegau o argyfyngau, ochr yn ochr â diogelu incwm a gwneud y mwyaf o incwm, mae'n hanfodol hwyluso ailgysylltu cymdeithasol a meithrin perthnasoedd er mwyn cynnal a gwella iechyd a llesiant i bawb.

5. Cyfleoedd mewn polisi ac ymarfer i gefnogi adeiladu perthnasoedd a rhwydweithiau cymdeithasol ymhlih pobl hŷn

Mae dull iechyd y cyhoedd at gyfalaf cymdeithasol yn golygu cael dulliau tymor byr a thymor hwy i gynyddu perthnasoedd a rhwydweithiau cymdeithasol.

Mae'r papur hwn yn dangos sut mae'r dulliau hyn yn digwydd ar lefelau lloosog, fel y dangosir yn y ffeithlun isod.



5.1. Cyfleoedd lefel system

Mae cyfleoedd lefel system yn aml yn ymyriadau ar raddfa fawr a gyflwynir gan lywodraethau a all helpu i fynd i'r afael â gwraidd y mater, yn hytrach na'r symptom. Mae enghreifftiau o gyfleoedd sy'n cefnogi gwella gallu pobl hŷn i feithrin perthnasoedd a rhwydweithiau cymdeithasol yn cynnwys trafnidiaeth, gwell gwasanaethau cymdeithasol a chynllunio a chreu lleoedd gan gynnwys cynyddu seilwaith trefol gwyrdd.

Mae gan Gymru nifer o ysgogiadau polisi lefel uchel y gellir eu defnyddio i gefnogi cyfleoedd i feithrin perthnasoedd a rhwydweithiau cymdeithasol. [Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol \(Cymru\) 2015](#) yn rhoi dyletswydd ar nifer o gyrrff cyhoeddus o dan y Ddeddf i helpu i alluogi "pobl leol i ddod at ei gilydd mewn cymunedau i gyfarfod a meithrin rhwydweithiau cymdeithasol".

Mae [Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant \(Cymru\) 2014](#) yn cydnabod manteision iechyd a llesiant perthnasoedd a rhwydweithiau cymorth cymunedol; rhaid i awdurdodau lleol 'rymuso pobl i gynhyrchu atebion arloesol ar gyfer gohirio, atal a diwallu anghenion gofal a chymorth drwy rwydweithiau a chymunedau lleol'.¹¹⁷

Mae dull cydgynhyrchiol o ddylunio a darparu gwasanaethau yn ganolog i'r ddau ddarn hyn o ddeddfwriaeth. Mae hyn yn golygu ymgysylltu â phobl hŷn a'u deall fel rhanddeiliaid a phobl hŷn yn gweithio mewn perthnasoedd 'cyfartal a dwyochrog' â gweithwyr proffesiynol, ar wella cymunedau a chynllunio gwasanaethau sy'n effeithio ar eu bywydau.¹¹⁸

Mae dogfen Llywodraeth Cymru [Cymru sy'n Gyfeillgar i Oed: ein strategaeth ar gyfer cymdeithas sy'n heneiddio](#) n mabwysiadu dull gweithredu sy'n seiliedig ar hawliau ac yn hyrwyddo cydraddoldeb a chyflawned cymdeithasol i bobl hŷn ar draws ystod o feisydd polisi, gan gynnwys polisiau sy'n mynd i'r afael â nodau tymor hwy ar gyfer cynnal ymgysylliad pobl hŷn yn eu cymunedau gan gynnwys:

- [Cysylltu Cymunedau](#). *Strategaeth ar gyfer mynd i'r afael ag unigrwydd ac unigedd cymdeithasol a meithrin cysylltiadau cymdeithasol cryfach.*
- [Llwybr Newydd](#): *trategaeth trafnidiaeth Cymru 2021. Ein strategaeth i lunio dyfodol trafnidiaeth yng Nghymru*
- [Strategaeth ar gyfer gofalwyr di-dâl](#). *Yr hyn y byddwn yn ei wneud i wella'r gydnabyddiaeth a'r gefnogaeth i ofalwyr di-dâl.*
- [Gweithredu ar Anabledd](#): *fframwaith a chynllun gweithredu yr hawl i fyw'n annibynnol*

Nod y strategaeth yw "datgloi potensial pobl hŷn heddiw a chymdeithas sy'n heneiddio yfory" ac mae'n canolbwytio ar y pedwar amcan trosfwaol a ganlyn:

- Gwella llesiant.
- Gwella gwasanaethau ac amgylcheddau lleol.
- Meithrin a chynnal gallu pobl eu hunain.
- Mynd i'r afael â thlodi sy'n gysylltiedig ag oedran.

Bwriad polisi cynllunio a chreu lleoedd yng Nghymru hefyd yw cefnogi cydlyniant cymunedol drwy anelu at ddatblygu mannau cyhoeddus sy'n hybu ffyniant, iechyd, hapusrwydd a llesiant pobl.¹¹⁹ [Mae Sefydliad Iechyd y Byd](#) yn cefnogi Rhwydwaith Byd-eang ar gyfer Dinasoedd a Chymunedau Ystyriol o Oedran. Yng nghyd-destun Degawd Heneiddio'n lach y Cenhedloedd Unedig (2021-2030) bydd y rhwydwaith yn ysgogi ac yn hyrwyddo dinasoedd a chymunedau ledled y byd i ddod yn fwyfwy ystyriol o oedran. Mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi cymorth i awdurdodau lleol yng Nghymru ddod yn ddinasoedd a chymunedau sy'n 'Ystyriol i Oedran' a gydnabyddir gan Sefydliad Iechyd y Byd.

Mae Sefydliad Iechyd y Byd yn disgrifio dinasoedd neu gymunedau sy'n ystyriol i oedran fel lleoedd sy'n hybu iechyd ac sy'n gynhwysol o ran dyluniad. Bydd hyn yn cael ei adlewyrchu mewn agweddu strwythurol megis tai hygrych a diogel, adeiladau a chanol trefi a dinasoedd gyda chyfleusterau da megis seddau cyhoeddus a thoiledau. Bydd ganddynt gysylltiadau trafnidiaeth da ac amgylchedd sy'n hwyluso cerdded a beicio diogel fel y gall pobl aros yn actif, yn gysylltiedig ac yn gallu ymgysylltu â phob agwedd ar fywyd cymunedol.

Cyfleoedd ar Lefel System yn ymarferol - Gwella mynediad corfforol i gymunedau

- Dangoswyd bod darparu tocynnau bws am ddim i bobl dros 60 oed yng Nghymru yn cynyddu eu defnydd o drafnidiaeth gyhoeddus ac yn cefnogi eu cyfalaf cymdeithasol yn weithredol trwy hwyluso ymgysylltu â'u cymunedau ar gyfer gwaith, dysgu, hamdden, darparu gofal a gweld teulu.
- Ym mis Medi 2023 bydd y gyfraith yng Nghymru yn newid [gan ostwng y terfyn cyflymder o 30 i 20 milltir yr awr mewn ardaloedd preswyl ac adeiledig](#) gyda gweithgarwch cerddwyr. Y nod yw lleihau damweiniau ffyrdd a llygredd a gwneud cymunedau yn fwy diogel ac yn fwy hygrych i bob oed, gan gynnwys pobl hŷn, i gerdded a beicio.

5.2. Cyfleoedd cymdeithas ehangach

Rydym yn diffinio cyfleoedd cymdeithas ehangach fel rhai sy'n ymwneud ag agweddau a normau cymdeithas Gymreig. Mae cyfleoedd ar y lefel hon yn ei gwneud yn ofynnol i ni fel cymdeithas newid y ffordd yr ydym yn ymddwyn ac yn meddwl, er enghraifft meddwl mwy am gysylltedd rhwng cenedlaethau a hygrychedd cymdeithasol cymunedau i bawb.

Mae'n hysbys bod gweithgareddau sy'n pontio'r cenedlaethau yn lleihau lefelau o unigedd ac unigrwydd ar draws cenedlaethau, yn gwella iechyd meddwl a chorfforol a llesiant oedolion ac oedolion hŷn ac yn gwella hyder a gwybodaeth plant a phobl ifanc.¹²⁰

Mae [Pecyn Adnoddau Pontio'r Cenedlaethau](#), a gynhyrchwyd gan Gomisiynydd Plant Cymru gyda Chomisiynydd Pobl Hŷn Cymru, yn darparu adnoddau i annog ysgolion a grwpiau o bobl hŷn i sefydlu grwpiau sy'n pontio'r cenedlaethau mewn cymunedau lleol. Mae'r adnodd ar gael ar wefan Comisiynydd Plant Cymru, sydd hefyd yn cynnwys engrheiftiau ffilm o brosiectau sy'n pontio'r cenedlaethau.

Mae allgáu cymdeithasol yn cael ei adrodd yn aml gan bobl â dementia a'u teuluoedd. Mae cymunedau cynhwysol sy'n ystyriol o ddementia wedi dod i'r amlwg fel syniad sy'n cyfrannu at liniaru allgáu cymdeithasol, drwy gryfhau gwybodaeth a dealltwriaeth o'r cyflwr ymhlið y gymuned ehangach.

Cyfleoedd cymdeithas ehangach yn ymarferol

- Mae gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan wasanaeth gwirfoddoli sefydledig, [Ffrind i Mi](#), i fynd i'r afael ag unigrwydd ac unigedd sy'n ymgorffori arferion sy'n pontio'r cenedlaethau. Yn 2018 paratôdd y partneriaid lluosog a oedd yn ymwneud â'r gwasanaeth Strategaeth sy'n pontio'r cenedlaethau i'r gwasanaeth adeiladu ar effaith gadarnhaol y gwaith traws-genhedlaeth a oedd eisoes yn digwydd.
- Mae Aberhonddu wedi dod yn [dref sy'n ystyriol o ddementia](#). Mae pobl hŷn â dementia mewn perygl arbennig o uchel o unigrwydd ac unigedd. Trwy ddarparu hyfforddiant dementia i fusnesau lleol a staff gwasanaethau cyhoeddus, nod Aberhonddu yw dod yn fwy croesawgar i bobl â dementia.

5.3. Cyfleoedd ar lefel gymunedol

Mae cyfleoedd ar lefel gymunedol yn gweithredu ar lefel leol a gellir eu hwyluso trwy ddylunio gwasanaethau neu drwy fentrau cymunedol. Mae enghreiffiau yn cynnwys cynyddu cyfleoedd gwirfoddoli, gwneud y gorau o asedau cymunedol i gefnogi cyfleoedd i gymunedau ddod at ei gilydd, a rhagnodi cymdeithasol.

Mae gwirfoddoli yn cael ei gydnabod yn eang fel rhywbeth sydd o fudd i gymunedau o ran adeiladu cyfalaf cymdeithasol ac i iechyd a llesiant unigolion. Fel arfer caiff gwirfoddoli ei ddarparu drwy sefydliadau elusennol neu gymunedol a gall fod ar sawl ffurf. Yn draddodiadol roedd gwirfoddoli yn aml yn cynnwys gweithgareddau wyneb yn wyneb tymor hwy, fodd bynnag, yn fwy diweddar, yn enwedig ers y pandemig, mae gwirfoddoli rhithwir fel cyfeillio dros y ffôn wedi cynyddu. Mae rhai rolau gwirfoddol yn gofyn am sgiliau penodol y gall sefydliadau neu unigolion proffesiynol eu cyflawni a gwirfoddoli strategol ar fyrrdau, pwylgorau neu ddod yn ymddiriedolwr elusen sy'n golygu cryn gyfrifoldeb.¹²¹ Mae gan y CGGC Porth Data's Sector Wirfoddol lle ceir ystadegau, gwybodaeth ac ymchwil am elusennau, menterau cymdeithasol a cwmnïau di-elw.¹²²

Roedd gwerth gwirfoddoli wrth ddarparu cymorth ymatebol mewn cymunedau, ac i gefnogi iechyd a gofal cymdeithasol, yn hysbys cyn y pandemig. Mae ei weld ar waith yn ystod y pandemig wedi ysgogi diddordeb o'r newydd mewn sicrhau bod strwythurau a rhwydweithiau yn eu lle i hwyluso ymateb o'r fath i baratoi ar gyfer heriau iechyd, economaidd neu amgylcheddol yn y dyfodol ac i gefnogi iechyd unigolion a chymunedau ar hyn o bryd ac yn y tymor hwy.

Cyfleoedd ymarferol ar lefel gymunedol – gwirfoddoli

- Mae [Helpu Cymru](#) yn rhaglen tair blynedd a ariennir gan Lywodraeth Cymru a arweinir gan Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (WCVA) gyda'r nod o ysgogi a chynyddu ymgysylltiad â gwirfoddolwyr i gefnogi gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru. Ynghyd â rhwydwaith o bartneriaid gan gynnwys Comisiwn Bevan, Gofal Cymdeithasol Cymru a Richard Norton Consulting mae [Fframwaith ar gyfer Gwirfoddoli, Iechyd a Gofal Cymdeithasol](#) wedi'i gynhyrchu sy'n anelu at gefnogi cynllunio, darparu a chefnogi gwirfoddoli i 'gynnal y fantais' a brofwyd o ran gwirfoddoli i gefnogi iechyd a gofal cymdeithasol yn ystod y pandemig. Bwriedir i'r fframwaith fod yn adnodd parhaol a gaiff ei adolygu a'i ddiweddar.

Mae mannau lle gall pobl ddod at ei gilydd i gael cymorth ymarferol yn ogystal â rhwngweithio cymdeithasol yn bwysig ar gyfer meithrin perthnasoedd a rhwydweithiau cymdeithasol o fewn cymunedau.

Cyfleoedd ar lefel gymunedol ar waith – asedau cymunedol

